



Canolfan Gwrandawriad Ymholiad Covid-19 y DU yng Nghymru

**(Mercure, Gogledd
Caerdydd)**

**Canllaw Defnyddwyr
Cyhoeddus**

Chwefror 2024

Cynnwys

Canolfan gwrandawiadau ymchwiliad Covid-19 yng Nghaerdydd, Cymru	2
Teithio i westy'r Mercure, Gogledd Caerdydd	3
Cyrraedd y Mercure	5
Aros yng ngwesty'r Mercure, Gogledd Caerdydd	6
Archebu seddi	6
Cyfarwyddiadau o fewn yr adeilad	7
Lluniaeth	7
Etiquette ystafell gwrandawriad	8
Proses ddiogelwch yn ei lle	9
Mewn argyfwng	10
Cymorth emosiynol	10
Coffadwriaeth	11
Polisi Covid-19	12
Cysylltiadau allweddol	12
Mynediad Wifi diogel	12

Canolfan gwrandawiadau ymchwiliad Covid-19 yng Nghaerdydd, Cymru

Croeso i ganolfan wrandawiadau Caerdydd ar gyfer Ymchwiliad Covid-19 y DU yng Nghymru.

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu chi yn ystod eich ymweliad â'r ganolfan wrandawiadau, sut i gyrraedd yno, a beth i'w ddisgwyl pan fyddwch chi'n cyrraedd yma. Mae'n mynd â chi drwy'r ardaloedd o fewn yr adeilad, y cyfleusterau, a rhai o'r prosesau sydd ar waith. Bydd canolfan wrandawiadau'r Ymchwiliad wedi'i lleoli yn y.

[Mercure Gogledd Caerdydd](#)



Lleolir Mercure Gogledd Caerdydd 3 milltir o ganol dinas Caerdydd yn agos at brif barciau busnes Caerdydd. Mae'n hawdd cyrraedd y gwesty ar y ffordd, gyda'r M4 gerllaw a pharcio ar y safle.

Teithio i westy'r Mercure, Gogledd Caerdydd

Defnyddiwch y [ddolen Google Map hon](#) i'ch helpu i gyrraedd yno.

Mewn car

Traffordd yr M4 - Cyffordd 29 - 10 munud mewn car

Parcio (220 o leoedd) - Bydd yr holl staff ac ymwelwyr sy'n mynychu'r gwrandawriad yn cael parcio am ddim. Ar ôl cyrraedd, rhowch wybod i'r ddesg gofrestru am gofrestriad eich car.

Ar y Trên

Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog - 20 munud mewn car

Mewn Awyren

Maes Awyr Caerdydd - 35 munud mewn car

Maes Awyr Bryste - 1 awr mewn car

Gwasanaeth bws mini preifat

I'r rhai sydd wedi cadarnhau seddi yn yr oriel gyhoeddus, bydd gwasanaeth bws mini ar gael ar ddiwrnodau gwrandawriad gyda gwasanaeth wedi'i drefnu o flaen llaw (9:15am) o orsaf drenau Caerdydd Canolog gwelwch yr [amserlen bys mini hwn](#) i'r lleoliad, amseroedd ar gyfer y siwrneiau dwyffordd amser cinio ac ar ôl y gwrandawriad yn dibynnu ar amserau rhedeg y wrandawriad:

- Bore - Codi o orsaf Caerdydd Canolog am 9:15am lleoliad codi ar gael ar yr [amserlen bws mini hwn](#)
- Cinio - Taith yn ôl o'r Mercure i Gaerdydd Canolog ac yn ôl (yn dibynnu ar amserau'r wrandawriad)
- Noson - Ymadawriad o'r Mercure yn ôl i Gaerdydd Canolog 15 munud ar ôl i'r gwrandawriadau ddod i ben (yn dibynnu ar amseriadau'r gwrandawriad)

Ar y Bws



Bysiau o Ganol Dinas Caerdydd i westy'r Mercure, Gogledd Caerdydd a nôl

[57 & 58 - Cardiff Bus](#)


[C1 - Adventure travel](#)

Safleoedd bws yn Nghanol Dinas Caerdydd:

Wyndham Arcade (NA) - Customhouse Street (JG)

Safleoedd bws yn agos i westy'r Mercure, Gogledd Caerdydd:

Queenwood - Llanedeyrn Rd



Cyrraedd y Mercure

Mae mynedfa gyhoeddus yr Ymchwiliad trwy brif fynedfa gwesty'r Mercure.



Ar ôl cyrraedd, bydd y rhai sydd ag e-bost 'cadw sedd wedi'i gadarnhau' yn hysbysu'r staff blaen tŷ a fydd yn eich cyfeirio yn unol â hynny.

Byddwch yn cael cortyn gwddf 'Ymwelydd', y mae'n rhaid ei wisgo bob amser y tu mewn i ganolfan y gwrandawriad, a'i roi yn ôl i staff blaen y tŷ wrth adael ar ddiwedd y dydd.

Bydd timau cyfreithiol Cyfranogwyr Craidd yn cael eu cyfeirio at y gwiriad diogelwch, bydd y cyfryngau'n cael eu cyfeirio at y gwiriad diogelwch ac i gysylltu â thîm cyfryngau'r Ymchwiliad.

I fynd i mewn i ystafell y gwrandawriad a'r lobi byddwch yn mynd trwy wiriad diogelwch safonol, sy'n cynnwys synhwyrdd metel cerdded drwodd a gwiriad bag. Mae hyn hefyd yn berthnasol i dystion a'u timau cyfreithiol.

Aros yng Ngwesty'r Mercure, Gogledd Caerdydd

Bydd ymwelwyr ar gyfer yr Ymholiad sy'n dymuno aros yn y Mercure yn cael cynnig cyfradd ostyngol o £85 y noson ar gyfer ystafell ddwbl, deiliadaeth sengl neu £100 y noson am ddwbl neu welyau gefell yn seiliedig ar ddau yn rhannu a bydd yn cynnwys brecwast a maes parcio. Mae ystafelloedd yn amodol ar argaeledd, dyfynnwch Ymholiad Covid 19 i gael y gyfradd hon.

Cadw seddi cyhoeddus

Mae 20 sedd ar gael yn yr oriel gyhoeddus yn ystafell y gwrandawriad ar gael i'w cadw. Mae nifer o seddi arall ar gael yn yr ystafell wyllo, ar sail 'y cyntaf i'r felin', ar ddiwrnod y gwrandawriad.

Mae'r ffurflen archebu ar gael i unrhyw un ei defnyddio er mwyn cadw sedd yn yr oriel gyhoeddus yn ystafell y gwrandawriad, yn y [Gymraeg](#) a'r [Saesneg](#). Bydd y rhai sy'n archebu seddi o flaen llaw hefyd yn gallu nodi os oes angen y gwasanaeth bws mini, parcio a/neu ginio arnynt.

Ni chaniateir i aelodau'r cyfryngau ddefnyddio'r system archebu hon ac mae'n rhaid iddynt gysylltu â media@coronavirus19.public-enquiry.uk a thîm cyfryngau'r Ymchwiliad os dymunant fynychu'r gwrandawriadau.

Bydd doler i'r seddau cadw ar gael i'w defnyddio o leiaf wythnos cyn wythnos gwrandawriad a bydd yn cael ei ryddhau'n wythnosol. Os nad yw dyddiad gwrandawriad yn weladwy ar y ffurflen cadw yna naill ai nid yw wedi'i ryddhau eto, neu mae'r seddau neilltuedig yn llawn ar gyfer y dyddiad hwnnw. Mae seddau cadw yn cau am hanner dydd y diwrnod cyn bod gwrandawriad i fod i ddechrau.

Mae'n rhaid cadw lle ar gyfer unigolyn yn unig, a dim ond ar gyfer dyddiadau y gall yr unigolyn a enwir fod yn bresennol y dylid eu cadw. Mae'r ffurflen archebu yn caniatáu i'r unigolyn archebu lle drosto'i hun, neu ar ran eraill, ar gyfer yr wythnos i ddod. Mae'n rhaid osgoi archebion bloc ar gyfer unigolion lluosog.

Dim ond ar gyfer dyddiadau y gall yr unigolyn a enwir fod yn bresennol y dylid cadw lle. Fe'ch cynghorir yn gryf, os na allwch fod yn bresennol a'ch bod wedi cadw sedd, a fydddech cystal â chanslo cyn gynted â phosibl drwy e-bostio operations.team@coronavirus19.public-enquiry.uk i roi cyfle i eraill fynychu.

Bydd hysbysiad cadarnhau seddi yn cael ei anfon drwy e-bost (gan operations.team@coronavirus19.public-enquiry.uk) os ydych wedi gofyn am gadw sedd.

Os yw diwrnod penodol yn llawn, ni fydd yr e-bost yn cadarnhau'r archeb ond bydd yn awgrymu archebu diwrnod arall neu fanteisio ar y seddi sydd ar gael ar y diwrnod yn unig.

Ystafelloedd a chyfarwyddiadau o fewn yr adeilad

Cyntedd Ystafell Wrandawiad - Wrth i chi ddod i mewn i'r lleoliad, gan wyro ychydig i'r chwith mae desg derbynfa'r Ymchwiliad, gyda desg derbynfa'r gwesty yn syth o'ch blaen. Byddwch yn cael eich cyfeirio i'r dde o ddesg dderbynfa'r gwesty i fynd trwy'r adran ddiogelwch. Bydd te a choffi ar gael.

Ystafell Gwrandawiad (Swit Caerfyrddin) - Unwaith y byddwch drwy'r diogelwch, cerddwch tuag at set o risiau, o'ch blaen ac i'r chwith, cerddwch heibio'r ardal hon, ewch drwy set o ddrysau dwbl, ac fe ddewch o hyd i Caerfyrddin, ystafell wrandawiad Ymholiad Covid-19.

Ystafell wyllo - Wrth ddod allan o gyntedd ystafell y gwrandawiad a heibio diogelwch, trowch i'r chwith gan wneud eich ffordd trwy set o ddrysau dwbl a heibio'r toiledau. Ewch i'r chwith a cherddwch drwy set arall o ddrysau dwbl, lle byddwch yn cyrraedd coridor hir a cherddwch i lawr y coridor hwn.

Ystafell Gymorth - Dyma'r ystafell gymorth lle mae'r tîm cymorth emosiynol ar gael drwy gydol gweithrediadau'r gwrandawliadau. Mae hwn wedi'i leoli yn agos i'r ystafell wyllo.

Lluniaeth

Bydd te a choffi ar gael yn rhad ac am ddim trwy gydol y dydd. Gall pawb sy'n mynychu'r gwrandawliadau archebu'r fwydlen ginio £10, gyda thaliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r gwesty.

Gellir gosod archebion wrth gyrraedd ar y diwrnod, o flaen llaw yn bersonol neu drwy e-bost (operations.team@covid19.public-inquiry.uk) neu drwy'r ffurflen archebu seddi yn yr oriel gyhoeddus.

Bydd y rhai sy'n dod â'u cinio eu hunain yn gallu bwyta yn 'lobi' ystafell y gwrandawliad a'r ystafell wyllo, ond nid ym mwyty, lolfâ na bar y gwesty.

Etiquette ystafell gwrandawriad

Yn ystod yr wythnos gyntaf, bydd gwrandawiadau yn rhedeg o ddydd Mawrth i ddydd Gwener rhwng 10:00 a 16:00 a bydd drysau i ystafelloedd y gwrandawiadau ar agor awr cyn i'r gwrandawriad ddechrau. Yn ystod y bythefnos ddilynol, bydd gwrandawiadau yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng yr un amseroedd. Bydd dwy egwyl fer yn ystod y dydd ac awr o egwyl ginio, yn amodol ar unrhyw newidiadau.

Mae amserlen y Gwrandawiadau ar gael ar ein [gwefan](#) ac [X \(Twitter yn flaenorol\)](#) ar gyfer diweddariadau.

Wrth eistedd yn ystafell y gwrandawriad, byddwch yn ystyriol ac yn barchus o'r rhai o'ch cwmpas. Gallwch ddal delweddau o anwyliaid yn ystafell y gwrandawriad (wedi'u hargraffu neu wedi'u lamineiddio yn unig) ac mae'r Ymchwiliad yn gofyn yn garedig i chi ddal y delweddau hyn ar eich glin ac i chi ymatal rhag eu codi'n uwch er mwyn osgoi rhwystr i eraill yn yr ystafell.

Bydd dŵr ar gael ac ni chaniateir yfed unrhyw fwyd a diod arall yn ystafell y gwrandawriad. Ni chaniateir defnyddio dyfeisiau â thechnoleg recordio na ffilmio gan gynnwys ffonau symudol yn ystafell y gwrandawriad. Os oes angen cael mynediad i'ch dyfeisiau, gallwch wneud hynny trwy adael ystafell y gwrandawriad yn dawel tra bod y gwrandawriad yn rhedeg.

Nodwch y bydd ffilmio a recordio'r Ymchwiliad yn digwydd trwy gydol y gwrandawriad ac yn cael ei ddarlledu'n fyw trwy YouTube (gydag oedi o dri munud). Mae'n bosibl y bydd unrhyw un yn ystafell y gwrandawriad yn cael ei ddal ar gamera yn y cefndir, neu tra bod camerâu'n tremio'r ystafell. Os nad ydych am gael eich ffilmio, a fyddech cystal â gwneud eich ffordd i'r ystafell wylïo lle caiff y gwrandawriad ei ddarlledu hefyd gydag oedi o dri munud.

Bydd yr ystafell wylïo ar agor ar yr un pryd â drysau prif ystafell y gwrandawriad. Yn yr ystafell wylïo mae ardal eistedd arddull theatr, lle gallwch yfed diodydd poeth, bwyta a defnyddio eich dyfeisiau electronig.

Gallwch adael canolfan y gwrandawriad yn ystod y dydd a dychwelyd ar unrhyw adeg, gan adael â'ch cortyn gwddf arnoch chi. Ar ôl dychwelyd, bydd angen i chi ddangos eich cortyn gwddf a mynd drwy'r system ddiogelwch eto. Os ydych chi'n gadael y ganolfan am y diwrnod, dychwelwch eich cortyn gwddf i'r tîm Blaen Tŷ.

Proses ddiogelwch

Gwiriadau diogelwch ac eitemau gwaharddedig - Mae'n rhaid i bob ymwelydd sy'n mynychu'r gwrandawiadau fynd trwy'r system ddiogelwch bob tro y byddant yn mynd i mewn i'r ganolfan wrandawiadau. Caniatewch amser ychwanegol i fynd trwy'r system diogelwch oherwydd efallai y bydd yn rhaid i chi giwio wrth fynd i mewn.

Byddwch yn mynd trwy wiriad diogelwch, a all gynnwys gwagio eich pocedi a chwilio â llaw neu ddefnyddio sganiwr llaw.

Os ydych chi'n gwisgo gorchudd pen am resymau crefyddol neu ddiwylliannol, byddwch yn cael gwybod sut y gall y staff diogelwch ei chwilio.

Ni chaniateir i eitemau gwaharddedig - fel gynnu, drylliau, cylllyll neu arfau eraill ddod i mewn i'r adeilad ar unrhyw adeg. Byddwch yn cael eich hysbysu i'r heddlu os byddwch yn ceisio mynd ag arf i mewn i'r ganolfan wrandawiadau.

Rhestrir isod eitemau eraill y gellir eu defnyddio fel arfau, hyd yn oed os ystyrir eu bod yn ddiniwed. Mae'r rhestr yn ddi-ben-draw.

- Llafnau - fel siswrn, cylllyll poced a raseli.
- Eitemau miniog eraill - fel nodwyddau gwau neu ddartiau.
- Gwydr - poteli persawr, fframiau lluniau, poteli yfed.
- Eitemau metel - cylllyll a ffyr, teganau, tyrnsgriwiau, morthwylion a hoelion, cadwyni, ymbarelau, helmedau damwain.
- Chwistrellau - heblaw eu bod wedi'u rhagnodi.
- Alcohol - toddyddion a sylweddu eraill a allai fod yn niweidiol.
- Yr holl offer recordio ffotograffig, sain a fideo, boed yn ddigidol neu'n analog ac eithrio ffonau symudol, er na allwch ddefnyddio'r rhain yn ystafell y gwrandawiad.
- Hylifau nad ydynt yn ddiodydd neu feddyginiaeth bresgripsiwn - fel olewau, persawrau, cynhyrchion corff eraill, ail-lenwadau ysgafnach, eitemau anweddu, glud, ac ati.

Ni allwch fynd ag unrhyw un o'r uchod i mewn i ystafell y gwrandawiad, bydd y swyddogion diogelwch yn atafaelu'r rhain oddi wrthy ac yn rhoi derbynneb i chi y byddwch yn ei ddefnyddio i gasglu'r eitem hon ar eich ffordd allan o'r adeilad.

Yr eitemau a allai fod gennych chi tra yn yr adeilad yw:

- Ffonau symudol - dylid eu diffodd neu eu rhoi ymlaen yn dawel yn ystafell y gwrandawiad ac ni ddylid caniatáu iddynt ddal unrhyw drafodion neu recordiadau.

- Glanweithydd dwylo - gofynnir i chi ddefnyddio hwn o flaen staff diogelwch i brofi nad yw'n eitem niweidiol. Mae gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u lleoli ym mhob rhan o ganolfan y gwrاندawiad.
- Diodydd - Diodydd heb eu hagor mewn cartonau a chaniau, a diodydd mewn potel, fflasg neu gwpan â chaead - ni ellir gwneud y rhain o wydr. Os yw eich diod wedi'i hagor, neu mewn fflasg neu gwpan, gofynnir i chi yfed rhywfaint i brofi nad yw'n niweidiol
- Meddyginiaeth - Meddyginiaethau presgripsiwn sydd â manylion arnynt i brofi bod hwn yn bresgripsiwn dilys, ac ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei chofnodi na'i rhannu.

Rhowch wybod i'r Ymholiad os oes angen addasiadau rhesymol arnoch yn ystod gwiriadau diogelwch pan fyddwch yn mynychu'r ganolfan drwy law operations.team@cov19.public-inquiry.uk

Mewn Argyfwng

Bob dydd Llun am 7pm cynhelir prawf larwm tân ac rydym yn rhoi gwybod i bob ystafell gynadleda amdano. Os bydd y larwm tân yn canu ar unrhyw adeg arall, byddant yn ymchwilio i weld os yw'n gamrybudd. Os yw'n barhaus maent yn mynd i wacáu llawn ac yn gadael yr adeilad. Mae gan banel tân y dderbynfa ymateb oedi o 4 munud sy'n mynd i ffwrdd yn gyntaf. Ar ôl hyn, mae gan y gwesty cyfan seinyddion yn canu ym mhobman i wacáu'r gwesteion a'r staff. Mae hysbysiadau camau tân yn cael eu harddangos o amgylch y lleoliad, y tu ôl i bob drws ystafell gyfarfod.

Cymorth cyntaf - Mae o leiaf un swyddog cymorth cyntaf yn bresennol ar y safle yn ystod amseroedd y gwrاندawiad, cysylltwch â'r brif dderbynfa a fydd yn cysylltu â'r swyddog cymorth cyntaf i fynychu.

Cymorth emosiynol

Gall mynd i ganolfan y gwrاندawiad yn bersonol i brofi achos o'r fath fod yn heriol a sbarduno atgofion, emosiynau ac ymatebion synhwyrdd anodd a gofidus.

Nod yr Ymchwiliad yw gweithredu dull sy'n ystyriol o drawma gan gydnabod bod effaith Covid-19 wedi bod yn eang ac wedi achosi trawma ar lefelau unigol, grŵp a chymuned.

Er mwyn gwneud y gwrandawiadau'n fwy hygyrch, a lleihau'r rhwystrau i fynychu'n bersonol, mae cwnselwyr hyfforddedig ar gael yn ystod gwrandawiadau i roi cymorth. Os na allwch ddod o hyd i gwnselydd, cysylltwch â staff yr Ymchwiliad i'ch cynorthwyo.

Mae ystafell gymorth yn y ganolfan wrandawiadau sydd ar gael i'r cwnselwyr ei defnyddio pan fydd angen preifatrwydd a disgresiwn. Cofiwch, wrth siarad â chwnselwyr y tu allan i'r ystafell gymorth, ni ellir gwarantu preifatrwydd llwyr.

Os ydych yn pryderu am eich **diogelwch eich hun neu rywun arall yn y ganolfan wrandawiadau**, rhowch wybod i aelod o staff yr Ymchwiliad neu'r tîm diogelwch a fydd yn eich cynorthwyo.

Os hoffech chi rannu adborth am eich profiad cymorth yn y ganolfan wrandawiadau rhowch wybod i ni ar operations.team@coronavirus.inquiry.gov.uk.

Fel arall gallwch ysgrifennu atom yn: **RHADBOST** Ymholiad Cyhoeddus Covid-19 y DU.

Rydym yn deall y gall mynychu'r ganolfan wrandawiadau gael effaith mewn nifer o ffyrdd. Edrychwch ar wefan yr Ymholiad lle byddwch yn dod o hyd i wybodaeth gyswllt ar gyfer nifer o sefydliadau sy'n cynnig amrywiaeth o fathau o gymorth, cyngor a gwasanaethau.

Mae'r Samariaid ar gael 24/7, ac yn rhad ac am ddim i ffonio ar 116 123.

Coffadwriaeth

Fel rhan o'n hymdrechion i gydnabod effaith ddynol y pandemig, ac i sicrhau ei bod yn parhau i fod wrth wraidd y trafodion, bydd cyfres o ffotograffau a phrintiau coffaol sy'n arwyddocaol yn lleol yn cael eu harddangos yn yr ardaloedd cyhoeddus.

Ar ddiwrnod cyntaf y gwrandawiadau, byddwn yn dangos ffilm effaith, yn cynnwys unigolion o bob rhan o Gymru yn siarad am eu profiad o'r pandemig. Mae hyn yn gosod y naws a'r cyd-destun, gan sicrhau bod yr achosion dilynol yn cael eu gosod yng nghyd-destun profiad bywyd y rhai a ddioddefodd galedi a cholled yn ystod y pandemig.

Polisi Covid

Cynlluniwyd y polisi hwn i leihau'r risg o drosglwyddo Covid-19 tra bod yr Ymchwiliad yn cynnal ei wrandawiadau ac mae wedi'i anelu at holl staff yr Ymholiad sy'n mynychu gwrandawiadau, gan gynnwys yr ysgrifenyddiaeth, timau cyfreithiol, contractwyr a staff diogelwch. Mae'r ddogfen hon hefyd yn gymwys i'r holl ymwelwyr sy'n mynychu gwrandawiadau, gan gynnwys cyfranogwyr craidd, cynrychiolwyr cyfreithiol, cyfryngau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae holl gyfyngiadau Covid-19 gorfodol Llywodraeth y DU nawr wedi'u codi, ond cofiwch y gall rhai staff ac ymwelwyr yn y ganolfan wrandawiadau fod yn agored i niwed. Parchwch ddymuniadau unigol pawb sy'n mynychu o ran cadw pellter cymdeithasol a gwisgo mygydau.

Am ragor o wybodaeth gweler [Polisi Covid-19](#).

Cysylltiadau allweddol yng Ngwesty'r Mercure, Gogledd Caerdydd

Cysylltiadau Lleoliad

- Prif gyswllt ar 02920589910 neu e-bost - hb539-sb@accor.com
- Tîm Gweithrediadau Ymholiad Covid-19 - operations.team@covid19.public-inquiry.uk

Mynediad Wifi diogel

Enw defnyddiwr: C19Inquiry_Guest

Cyfrinair: C19MERCURE2024